# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**Pwyllgor Cyllid**

**7.30 y.h. yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog**

**Tachwedd 25ain, 2025**

**Cofnodion**

**1. Presennol: Cynghorwyr:** Gwilym Jones (Cadeirydd), Karena Owens, Jeremy Davies, Alwyn Gruffydd, Edward Naish, Michael Roberts.
Elfyn Lewis (Clerc)

**Ymddiheuriadau: Cynghorwyr:** Dr. Melfyn Edwards, Carol Hayes

**Absennol: Cynghorwyr:** Llywelyn Rhys, Glenda Murray

2. Archwilio'r cyfrifon. (Mantolen hyd at Dachwedd 17 2025).

Cafwyd yn gywir. Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Karena Owens yn eilio.

3 Amcangyfrif gwariant hyd at 31.3.26 a phenderfynu ar flaenoriaethau 2026-27.

Roedd y Clerc wedi paratoi tablau i ddangos cymhariaeth gwariant rhwng 31.3.25 a 17.11.25 ac amcangyfrif o wariant posibl hyd at 31.3.25. Oherwydd mai amcangyfrif oeddynt a bod pedwar mis tan diwedd y flwyddyn ariannol bydd y Clerc yn paratoi rhagor o dablau erbyn cyfarfod mis Rhagfyr.

4. Penderfynu ar cytundeb torri gwair 2026-27

Mae cytundeb tair blynedd yn ei le gyda Chyngor Gwynedd.

5. Dechrau trafodaeth am braesept 2026/2027.

Bydd trafodaethau parthed y praesept yn parhau yng nghyfarfod y Pwyllgor Llawn ar 9.12.25. Bydd y Clerc wedi paratoi ymhellach er mwyn i'r cynghorwyr ddod i benderfyniad ynglyn a'r praesept. Bydd penderfyniad ar y praesept yn cael ei gytuno yn ystod cyfarfod Mis Ionawr.

6. Penodi Archwiliwr Mewnol ar gyfer archwiliad 2026-2027

Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu a Luned Fon Jones, Cyngor Gwynedd.

7. Biliau i'w talu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Ian Cadmore | Coed Nadolig | £340 |

Cymeradwywyd y taliad.

(Mae copi o bob taliad ar gael er mwyn archwiliad).

Daeth y cyfarfod i ben am 20.00.

Elfyn Lewis (Clerc) 27/11/2025

*Elfyn Lewis (Clerc),39 Heol Fadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BU*

*Ffôn: 01766 514210*

*E-bost: clerccyngtreport@gmail.com*